**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/MDFWL/0003/25

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid

13 Ionawr 2025

Annwyl Peredur,

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2024.

Rwyf wedi nodi ymateb y Llywodraeth i argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor ar fanylion y ddeddfwriaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD**

## Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

## Ymateb y Llywodraeth i argymhellion Adroddiad Y Pwyllgor Cyllid

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion** | | | | |
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau pryd y bydd data am addysgu'r Gymraeg yng nghyd-destun datblygu gweithlu ysgolion ar gael. | Derbyn | Na | Na | Cesglir gwybodaeth am aelodau o'r gweithlu ysgolion yn unol â Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017. Cyhoeddir y data yn y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Bydd unrhyw asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg y mae ei angen ymhob awdurdod lleol er mwyn cyflawni unrhyw darged a osodir arnynt yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig na chafodd y dadansoddiad cost a budd ar gyfer pob un o'r tri senario yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu cynnwys. Mae llawlyfr Llywodraeth Cymru ei hun yn cynghori y dylid cynnwys costau ar gyfer yr holl opsiynau sy'n cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith | Gwrthod | Na | Na | Ni chafodd y tair senario a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) eu datblygu at ddibenion disgrifio gwahanol opsiynau polisi. Yn hytrach, maent yn darparu ffordd o ddisgrifio asesiad Llywodraeth Cymru o'r buddsoddiad tebygol sydd ei angen, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sefyllfa bresennol addysg Gymraeg mewn perthynas â'r nodau a fynegwyd yn y Bil. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i’r Bil | Newid i’r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddiol. Mae’n syndod felly nad yw’r Asesiad ar gyfer y Bil hwn wedi dilyn y dull hwn ac yn gofyn am gynnwys hwn i gefnogi’r gwaith o graffu ar oblygiadau cost yr holl Filiau a gyflwynir. | | | | Mae'r AERh yn canolbwyntio ar ddarparu amcangyfrif llawn o'r costau ar gyfer yr opsiynau a gyflwynwyd yn y Bil, yn hytrach na hefyd gostio'n llawn yr 'opsiwn gwneud dim' a'r ‘opsiwn amgen’ ym Mhennod 7 a ddiystyriwyd am resymau eraill. Mae Pennod 7 yn rhoi syniad o'n hasesiad o faint cymharol y costau (uchel, canolig, isel) ar gyfer pob opsiwn. |
| **Argymhelliad 3.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i’r Bil hwn a bod digon o amser yn cael ei ddarparu i ganiatáu i’r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig a fydd yn codi. | Derbyn | Na | Na | Bydd AERh yn cael eu darparu ar gyfer pob set o reoliadau a wneir o dan y Bil. Bydd y rhan fwyaf o'r rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Gadarnhaol Ddrafft a bydd yr AERh yn cael ei osod gerbron y Senedd cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y rheoliadau, felly yn caniatáu craffu gan y Senedd. |
| **Argymhelliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad llawn o sut yr amcangyfrifwyd costau’r Athrofa Dysgu Cymraeg | Derbyn | Na | Oes | Bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol am gostau'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cael ei hychwanegu at yr AERh ar ôl Cyfnod 2. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i’r Bil | Newid i’r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Genedlaethol a sut mae hyn yn cymharu â’r costau sy’n ymwneud â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac yn diweddaru’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2. | | | | |
| **Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu amcangyfrifon cost yn ymwneud â galw cynyddol am gyrsiau trochi iaith a bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud i’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2. | Derbyn | Na | Oes | Ers cyhoeddi'r AERh, mae data newydd ar lefel awdurdod lleol ynghych trochi hwyr wedi dod ar gael. Caiff yr AERh ei ddiweddaru gydag amcangyfrif o gostau sy'n ymwneud â galw am drochi hwyr. |
| **Argymhelliad 6.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yn asesu costau a buddion cyffredinol y Bil ac a yw hyn yn bodloni’r disgwyliadau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. | Derbyn | Na | Na | Fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu, y bwriad yw asesu costau a buddion cyffredinol y Bil o'i gymharu â'r disgwyliadau a nodir yn yr AERh. |
| **Casgliadau** | | | | |
| **Casgliad 1.** Mae’r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y’u nodir yn yr Asesiad Effaith | Nodir | Na | Na | Rydym wedi ymateb i'r sylwadau a'r argymhellion yn unigol. |

| **Argymhelliad** | **Ymateb y Llywodraeth** | **Newid i’r Bil** | **Newid i’r dogfennau ategol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i’r sylwadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn. | | | | |
| **Casgliad 2.** Mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r darpariaethau yn y Bil i ganiatáu ar gyfer cydweithio ar draws ysgolion wrth ddatblygu eu cynlluniau darparu addysg Gymraeg ac yn nodi’r arbedion cost a allai godi o ganlyniad i hyn. | Nodir | Na | Na | Bydd y pwynt hwn yn cael ei wneud yn eglur yn naratif yr AERh. |